IOPC Independent Office for Police Conduct

# Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut rydym yn prosesu eich data personol sy'n gysylltiedig â'n defnydd o deledu cylch cyfyng (CCTV)

### Pwy ydym ni

Cafodd Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu ("IOPC")[1] ei sefydlu i oruchwylio'r system cwynion am yr heddlu yng Nghymru a Lloegr a chynnal hyder y cyhoedd ynddi.[2]

Am FWY o wybodaeth am yr hyn rydym yn gwneud, ac am fanylion ynghylch sut i gysylltu â ni, ewch i'n gwefan.

### Pam rydym yn prosesu gwybodaeth amdanoch chi

Rydym wedi ymrwymo i barchu a diogelu eich preifatrwydd. Bwriedir i'r hysbysiad hwn fod yn atodiad i'n hysbysiadau preifatrwydd eraill sy'n ymwneud â busnes craidd ac adnoddau dynol.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn i esbonio sut ac at ba ddiben/dibenion y byddwn yn casglu ac yn prosesu unrhyw wybodaeth bersonol amdanoch chi mewn perthynas â'n defnydd o deledu cylch cyfyng (CCTV) sydd wedi'i leoli ar ac o amgylch safle IOPC.

Wrth osod a monitro ein system deledu cylch cyfyng, rydym wedi ystyried Deddf Diogelu Data 2018, Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol y DU (GDPR y DU), Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Deddf Diogelu Rhyddid 2012, a Deddf Hawliau Dynol 1998, ynghyd â'r Cod Ymarfer Camerâu Gwyliadwriaeth, a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Diogelu Rhyddid 2012.

Gall ein system deledu cylch cyfyng fod wedi'i lleoli y tu allan i swyddfeydd a meysydd parcio IOPC, ac y tu mewn i fynedfeydd. Bydd yn tynnu lluniau o bobl a cherbydau yn ac o gwmpas lle mae'r camera wedi'i leoli. Mae ein holl gamerâu wedi'u gosod ac mae arwyddion wedi'u harddangos ym mhob mynedfa i gerddwyr a

[1] Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu yn flaenorol. Sefydlwyd IOPC ar 8 Ionawr 2018.
[2] Rydym hefyd yn goruchwylio'r system cwynion ar gyfer sefydliadau eraill, fel CThEF, yr Asiantaeth Troseddu Genedlaethol, ac Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur.

cherbydau i hysbysu unigolion bod system deledu cylch cyfyng ar waith. Nid ydym yn gweithredu unrhyw gamerâu cylch cyfyng cudd.

## Diben ein monitro CCTV

Mae ein camerâu CCTV wedi'u lleoli i gefnogi cyflwr diogelwch ffisegol yr adeilad, a all gynnwys ardaloedd perimedr, a meysydd parcio a llwybrau cerdded. Dyma brif ddibenion y system CCTV:

- Atal, lleihau a chanfod troseddau a digwyddiadau cysylltiedig eraill
- Ymchwilio i droseddau a digwyddiadau cysylltiedig eraill
- Sicrhau diogelwch ac amddiffyniad asedau IOPC
- Monitro a chynnal iechyd, diogelwch a llesiant staff ac ymwelwyr
- Atal mynediad heb awdurdod i safle IOPC
- Cynorthwyo gydag ymchwilio i achosion o dorri rheolau neu gamymddwyn a amheuir

## Y math o wybodaeth bersonol rydyn ni'n ei gasglu a'i brosesu

### Data personol

Bydd y system CCTV yn dal delweddau o bobl a cherbydau (gan gynnwys y posibilrwydd y bydd platiau cofrestru yn cael eu dal mewn delwedd) yn ac o gwmpas lle mae'r camera wedi'i leoli. Mae hyn yn berthnasol i fynedfeydd i gerddwyr a cherbydau ym mhob swyddfa IOPC lle rydym yn rheoli'r data.

Nid oes unrhyw gamerâu CCTV wedi'u lleoli i gofnodi ardaloedd preswyl preifat yn fwriadol.

### Data categori arbennig

Mae gan rai categorïau o ddata personol amddiffyniadau cyfreithiol ychwanegol wrth gael eu prosesu. Y categorïau hyn yw data am eich iechyd, tarddiad hil neu ethnig, barn wleidyddol, credoau crefyddol neu athronyddol, aelodaeth o undeb llafur, data genetig, data biometrig, neu ddata sy'n ymwneud â'ch bywyd rhywiol neu gyfeiriadedd rhywiol.

Gall gosod ein system deledu cylch cyfyng, a fydd yn dal delweddau o bobl a cherbydau, olygu ein bod hefyd yn dal rhywfaint o ddata categori arbennig, a gall hyn gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, wybodaeth iechyd, tarddiad hiliol neu ethnig, a/neu gredoau crefyddol.

### Data troseddau troseddol

Mae prosesu data troseddau troseddol hefyd yn gofyn am ddiogelwch cyfreithiol ychwanegol. Data yw hwn sy'n cynnwys gwybodaeth am honiadau troseddol, troseddau, achosion troseddol, ac euogfarnau troseddol.

Un o ddibenion ein system deledu cylch cyfyng yw atal, lleihau a chanfod troseddau, er mwyn sicrhau diogelwch asedau IOPC. Felly, efallai y byddwn, yn ystod ein gwaith monitro, yn casglu gwybodaeth a ystyrir yn ddata troseddau.

## Ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data

Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu eich data personol yw:

- mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn i IOPC gydymffurfio â rhwymedigaeth gyfreithiol[3]
- mae'r prosesu yn angenrheidiol er mwyn i IOPC gyflawni tasg er budd y cyhoedd[4]
- mae'r prosesu yn angenrheidiol er buddiannau cyfreithlon IOPC[5]

Ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu unrhyw ddata categori arbennig yw:

- am resymau o fudd cyhoeddus sylweddol sydd â sail yn y gyfraith, at ddiben atal neu ganfod gweithredoedd anghyfreithlon[6]

Ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu unrhyw ddata troseddau yw:

- mae'r prosesu'n angenrheidiol er mwyn i IOPC gyflawni tasg er budd y cyhoedd, at ddiben atal neu ganfod gweithredoedd anghyfreithlon[7]

## Gyda phwy rydyn ni'n rhannu eich data

Pan mai ni yw rheolwr y lluniau, efallai y bydd angen i ni rannu eich gwybodaeth ag eraill. Dim ond pan fydd angen, neu os yw'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i ni wneud hynny, y byddwn yn gwneud hyn.

Efallai y gofynnir i ni ddarparu'r lluniau i gynorthwyo'r heddlu gydag unrhyw ymchwiliadau y maent yn eu cynnal. Efallai y bydd gofyn i ni hefyd rannu'r lluniau gyda chwmnïau yswiriant pe bai digwyddiad.

Nid oes unrhyw rannu lluniau teledu cylch cyfyng wedi'i drefnu gydag unrhyw sefydliad allanol, a bydd hyn ar sail achos wrth achos, trwy eithriad.

## Am ba hyd y byddwn yn cadw eich data

Byddwn yn cadw data personol a gesglir yn unol â'r amserlen cadw a gwaredu.

[3] Erthygl 6(1)(c) GDPR y DU;
[4] Erthygl 6(1)(e) GDPR y DU;
[5] Erthygl 6(1)(f) GDPR y DU;
[6] Erthygl 9(1)(g) GDPR; adran 10 a rhan 2 atodlen 1, DPA 2018
[7] Erthygl 6(1)(e) GDPR; adran 10 a rhan 2 atodlen 1, DPA 2018

## Eich hawliau mewn perthynas â'r data sydd gennym

Mae deddfwriaeth diogelu data yn rhoi nifer o hawliau i chi sy'n ymwneud â'ch data personol. Mae'r hawliau hyn yn atebol i rai eithriadau penodol. Gall eich hawliau gynnwys:

- yr hawl i gael mynediad at eich data
- yr hawl i gael eich data wedi'i gywiro os yw'n anghywir neu'n anghyflawn
- yr hawl i ofyn am gyfyngiadau ar brosesu eich data
- yr hawl i wrthwynebu prosesu eich data
- yr hawl i gael eich data wedi'i ddileu
- yr hawl i gael gwybod sut mae eich data yn cael ei brosesu
- hawliau sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau awtomataidd a chludadwyedd data

Dylech roi gwybod i ni am unrhyw newidiadau i'ch gwybodaeth fel y gallwn fod yn hyderus bod y data sydd gennym amdanoch yn gywir. I ddeall mwy am yr hawliau hyn a sut i'w harfer, gweler ein tudalen we yma**.**

## Ein Rheolwr Data a'n Swyddog Diogelu Data

Ein rheolwr data yw'r Cyfarwyddwr Cyffredinol. Mae gan y rheolwr data reolaeth cyffredinol dros y pwrpas a'r modd rydym yn casglu a phrosesi data personol.

Mae gennym Swyddog Diogelu Data dynodedig a Thîm Rhyddid Gwybodaeth a Diogelu Data. Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu bryderon ynghylch arfer eich hawliau data neu'r ffordd rydym yn casglu, trin neu brosesu eich data, cysylltwch â'r tîm drwy e-bostio dpo1@policeconduct.gov.uk

Fel arall, gallwch gysylltu â'n switsfwrdd ar 0300 020 0096.

## Eich hawl i gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth

Os ydych chi'n anfodlon ag unrhyw agwedd ar y ffordd rydym ni wedi prosesu eich data personol, mae gennych chi'r hawl i wneud cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF
ico.org.uk
Ffôn: 0303 123 1113
casework@ico.org.uk

## Adborth neu gwynion am ein gwasanaeth neu staff

Os ydych chi eisiau rhoi adborth i ni neu wneud cwyn am ein gwasanaeth neu staff, cysylltwch â'n tîm Gwella Ansawdd a Gwasanaeth**.**

## Adolygiad o'r hysbysiad hwn

Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn cael ei adolygu'n rheolaidd a gellir ei ddiwygio.

Cyhoeddwyd Mawrth 2026

**© IOPC 2026**

OGL This is licensed under the Open Government Licence v3.0 except where otherwise stated.

This does not include material belonging to third parties.
Authorisation to use such material must be obtained from the copyright holders concerned.

I gael gwybod mwy am ein gwaith neu i ofyn am yr adroddiad hwn mewn fformat amgen, gallwch gysylltu â ni mewn nifer o ffyrdd:

**Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC)**
**10 South Colonnade Canary Wharf London E14 4PU**
Ffôn: **0300 020 0096**
E-bost: **enquiries@policeconduct.gov.uk**
Gwefan: **www.policeconduct.gov.uk/cy**
Cyfnewid testun: **18001 020 8104 1220**

Rydym yn croesawu galwadau ffôn yn y Gymraeg